Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 7(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau, gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2021 Rhif 384 (Cy. 122)

YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

Mae'r Rheoliadau hyn wedi eu gwneud drwy arfer y pwerau a roddir gan Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 (p.16) er mwyn ymdrin ag unrhyw fethiant yng nghyfraith yr UE a ddargedwir i weithredu'n effeithiol a diffygion eraill (yn benodol y diffygion y cyfeirir atynt ym mharagraffau (a) i (d) a (g) o adran 8(2)) sy'n deillio o ymadawiad y Deyrnas Unedig â'r Undeb Ewropeaidd.

Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio diffygion yn Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011 (O.S. 2011/2379) (Cy. 252) ("Rheoliadau 2011") o ganlyniad i ymadael â'r UE. Mae Rheoliad 2 yn diwygio Rheoliadau 2011 er mwyn newid y dyddiad y mae gofynion hysbysu trosiannol o flaen llaw yn gymwys ar gyfer cynhyrchion sy'n deillio o anifeiliaid o'r 1 Ebrill 2021 i 31 Gorffennaf 2021.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru argynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, ystyriwyd

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

nad oedd yn angenrheidiol cynnal asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol oddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn.

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

Rheoliadau a wnaed gan Weinidogion Cymru, a osodwyd gerbron Senedd Cymru o dan baragraff 7(3) o Atodlen 7 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018, i'w cymeradwyo drwy benderfyniad gan Senedd Cymru o fewn 28 o ddiwrnodau, gan ddechrau ar y diwrnod y gwnaed y Rheoliadau, yn ddarostyngedig i'w estyn dros gyfnodau o ddiddymu neu pan fo toriad am fwy na phedwar diwrnod.

OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2021 Rhif 384 (Cy. 122)

YMADAEL Â'R UNDEB EWROPEAIDD, CYMRU

ANIFEILIAID, CYMRU

Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021

Gwnaed	*22 Mawrth 2021*
Gosodwyd gerbron Senedd Cymru	*24 Mawrth 2021*
Yn dod i rym	*31 Mawrth 2021*

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Rheoliadau hyn drwy arfer y pwerau a roddir gan baragraff 1(1) o Atodlen 2 a pharagraff 21 o Atodlen 7 i, Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018(**1**).

Mae Gweinidogion Cymru o'r farn, oherwydd brys, bod angen gwneud y Rheoliadau hyn heb osod drafft

(**1**) 2018 p. 16; gweler adran 20(1) am y diffiniad o "*devolved authority*". Diwygiwyd paragraff 21 o Atodlen 7 gan adran 41(4) o, a pharagraff 53(2) o Ran 2 o Atodlen 5 i Ddeddf yr Undeb Ewropeaidd (Y Cytundeb Ymadael) 2020 (p.1).

Certified copy from legislation.gov.uk Publishing

o'r offeryn gerbron Senedd Cymru, na chymeradwyo'r drafft hwnnw drwy benderfyniad ganddi(**1**).

Enwi a chychwyn

1. —(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) (Diwygio) (Ymadael â'r UE) 2021.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 31 Mawrth 2021.

Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011

2.—(1) Mae Rheoliadau'r Fasnach mewn Anifeiliaid a Chynhyrchion Perthynol (Cymru) 2011(**2**) wedi eu diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 5—

(a) Ym mharagraff 5(3), yn lle "1 Ebrill 2021" rhodder "31 Gorffennaf 2021";

(b) Ym mharagraff 6(1)(c), yn lle "1 Ebrill 2021" rhodder "31 Gorffennaf 2021".

Lesley Griffiths
Gweinidog yr Amgylchedd, Ynni a Materion Gwledig, un o Weinidogion Cymru
22 Mawrth 2021

(**1**) Mae'r cyfeiriadau yn Neddf yr Undeb Ewropeaidd (Ymadael) 2018 at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriadau at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32).

(**2**) O.S. 2011/2379 (Cy. 252). Mewnosodwyd Atodlen 5 gan reoliad 32 o O.S. 2020/1612 (Cy. 337). Mae offerynnau diwygio eraill ond nid yw'r un ohonynt yn berthnasol.